**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.00 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); R Simmons (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G W Griffiths (Uwch Reolwr Datblygu); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes) S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); Rh Williams (Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| R Fairhead | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MAI 2014

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd dim materion yn codi.

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr adroddiad monitro perfformiad a rhoi dadansoddiad manwl i'r Aelodau o'r wybodaeth am berfformiad y flwyddyn 2013-14. Nodwyd y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau o'i cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond bod 2012-13 yn flwyddyn eithriadol gyda nifer isel iawn o ddigwyddiadau a bod ffigyrau 2013-14 yn ddarlun mwy 'normal' o weithgarwch yr ochr weithredol.

6.2 Er bod cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau, roedd mwy o bobl wedi llwyddo i ddianc yn ddianaf a heb gymorth, a gellid priodoli hyn i'r ffaith fod larymau mwg mewn eiddo a bod pobl yn fwy ymwybodol ac yn dilyn cynllun dianc os oes tân yn eu cartrefi. Nodwyd y bu cynnydd yn nifer yr anafiadau o ganlyniad o danau damweiniol mewn anheddau yng Nghymru a Lloegr, a bod y tueddiad cyffredinol yn dangos gostyngiad o'i gymharu â dechrau'r ganrif, a bod y ffigyrau wedi cyrraedd man gwastad erbyn hyn.

6.3 Ymddengys fod nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt ac a oedd heb larwm mwg yno hefyd cyrraedd man gwastad ar ryw 15%-16%. Fodd bynnag, roedd hyn yn well na'r ffigwr cyfartalog yn y Deyrnas Unedig, sef 30%. Roedd y Gwasanaeth wedi mynd at 130 (25%) o danau mewn anheddau lle'r oedd larwm mwg yno ond heb ganu; ar ôl ymchwilio i'r mater canfuwyd mai'r sefyllfa yn y rhan fwyaf o achosion oedd nad oedd y larwm mwg yn ddigon agos at ffynhonnell y tân. Gofynnodd yr Aelodau am yr hyn a oedd yn achosi tanau a ble yr oeddent yn cynnau mewn eiddo, a chytunwyd i ddarparu'r wybodaeth hon yn y cyfarfod nesaf.

6.4 O ran cynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, mae sefydliadau sy'n bartneriaid inni yn gallu targedu'r rhai mwyaf agored i berygl yn y gymuned, ac mae'r agwedd hon ar weithio mewn partneriaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda 32% o blith y 26,621 o archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn atgyfeiriadau gan sefydliad sy'n bartner inni, gan fynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth, sef 30%.

6.5 Yn y pedair blynedd ddiwethaf, bu gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y gweithgarwch yn gyffredinol ac roedd y Gwasanaeth wedi mynd at 7% yn is o ddigwyddiadau yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13. O gymharu â rhannau eraill o Gymru a Lloegr, mae GTAGC yn mynd at lawer llai o ddigwyddiadau, yn bennaf oherwydd y bydd y Gwasanaeth nawr yn edrych ar ba asiantaeth yw'r fwyaf addas i fynd at ddigwyddiad a ph'un a oes angen y Gwasanaeth o gwbl. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i gymharu â 2012-13 ac o gymharu â'r cyfartaledd dros 3 blynedd, ond mae'n anodd rhagweld y ffigyrau hyn gan eu bod yn codi ac yn gostwng yn ôl y tywydd.

6.6 Bu gostyngiad o 5% yn nifer y galwadau diangen o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Atgoffwyd yr Aelodau am y polisi herio galwadau pan fo'r gweithredwyr yn yr ystafell reoli yn gallu herio galwadau amheus ac mae hyn wedi llwyddo i ostwng nifer y galwadau diangen maleisus y mae'r Gwasanaeth yn troi allan atynt.

6.7 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad am gryn amser ac yn holi'r swyddogion am ei gynnwys. Diolchodd y Cyng. Lewis i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am yr adroddiad manwl a nodi mai da oedd gweld bod y cyfartaledd dros 3 blynedd yn dangos gwelliant yn y rhan fwyaf o'r meysydd perfformiad a gofnodwyd.

6.8 Dywedodd y PST fod y gwelliant dros y tair blynedd yn ganlyniad i waith caled y staff, a nodwyd bod y gwaith ataliol yn costio arian a chan fod llai o adnoddau ar gael ar gyfer y gwaith hwn efallai na fydd modd cynnal y ffigyrau hyn yn y dyfodol.

6.9 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys adroddiad monitro perfformiad 2013-14.**

7 YR ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

7.1 Cyflwynodd y PST adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar GTAGC a gwahodd Lisa Williams o'r Swyddfa i gyflwyno'r adroddiad i'r aelodau. Yn y bôn crynodeb oedd yr adroddiad o'r hyn yr oedd yr Awdurdod wedi ei wneud yn 2012-13 o ran cynllunio ar gyfer gwella, ynghyd â'i gynlluniau ar gyfer 2013-14 a 2014-15, sef rhan o asesiad y Swyddfa drwy edrych i'r dyfodol.

7.2 Dywedodd Ms Williams fod yr adroddiad yn un cadarnhaol, bod trefniadau cynllunio yn eu lle o fewn yr Awdurdod a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'r trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15. Roedd dau gynnig ar gyfer gwella: cryfhau'r broses cynllunio ar gyfer gwella, a gwella'r adroddiad asesu perfformiad. Fodd bynnag, i ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cydnabu Ms Williams fod y drafodaeth ar yr adroddiad monitro perfformiad yn dangos bod yr aelodau'n craffu ar berfformiad yr Awdurdod ac yn wir yn herio'r swyddogion ynglŷn â'r wybodaeth a roddir.

7.3 Diolchodd y Cadeirydd i Ms Williams am yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD nodi'r adroddiad gwella blynyddol.**

8 ADRODDIAD MONITRO'R GYMRAEG

8.1 Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg. Bob blwyddyn mae gofyn i'r Gwasanaeth lunio adroddiad manwl sy'n nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd y targedau sydd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth.

8.2 Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i wneud cynnydd o ran y Gymraeg. Mae cynnydd yn nifer yr aelodau o'r staff sydd â sgiliau llafar ar lefel 4 o leiaf, ynghyd ag yn nifer y staff sydd mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Bu cynnydd yn nifer y cyflwyniadau a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, a bu cynnydd hefyd yn nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.3 Diolchodd y Cyng. L W Davies i'r swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol a dywedodd mai da oedd nodi bod cynnydd parhaus yn cael ei wneud.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg a chymeradwyo adroddiad monitro 2013-14 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.**

9 CYNLLUN AR Y CYD I LEIHAU RISG A GWELLA O 2015-16 AC YMLAEN, A'R CYNNIG AR GYFER YMGYNGHORI

9.1 Cyflwynodd y PSTC Ruth Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y strategaeth ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i gefnogi'r dasg o ddatblygu'r Cynllun ar y cyd i Leihau Risg a Gwella 2015-16 ac ymlaen.

9.2 Mae'r strategaeth ymgynghori yn nodi sut y gall aelodau'r Awdurdod gael barn y cyhoedd ar eu hamcanion drafft cyn dewis y ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Yn goleuo'r strategaeth ymgynghori mae Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru 2011, a gefnogwyd gan Brif Weinidog Cymru. Bydd y negeseuon allweddol sy'n cyfleu'r prif syniadau yr ydym am eu rhoi i'n cynulleidfaoedd yn cael eu mynegi'n gyson, a defnyddir amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu â'r cyhoedd gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasu, digwyddiadau cymunedol a hefyd yn fewnol drwy'r cylchlythyr staff a briffiadau wythnosol.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r gwahanol agweddau ar y strategaeth ymgynghori, a chefnogi'r negeseuon allweddol sydd yn yr adroddiad.**

10 SAFONAU FFITRWYDD

10.1 Rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad i'r Aelodau i godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd, lles a'r lefelau ffitrwydd sydd eu hangen ar gyfer gwaith gweithredol diffodd tân. Nodwyd bod y materion ffitrwydd yn gysylltiedig â'r anghydfod presennol ynghylch pensiynau rhwng Undeb yr FBU a'r Llywodraeth, ond pwysleisiwyd mai er mwyn codi ymwybyddiaeth yn unig ac nid mewn perthynas â'r anghydfod y rhoddid yr wybodaeth a oedd yn y cyflwyniad.

10.2 Nodwyd bod yn rhaid i ddiffoddwr tân fod yn iach ac yn addas i gyflawni'r rôl gan ei bod yn golygu amrywiaeth o dasgau a allai fod yn galed yn gorfforol ac yn feddyliol ac yn aml nid oes modd eu rhagweld o ran natur na hyd. O safbwynt cyflogwr neu sefydliad, mae angen i'r Gwasanaeth fod yn hyderus ei fod yn gallu darparu gwasanaeth ymateb gweithredol er mwyn dod â digwyddiad i ben yn ddiogel.

10.3 Esboniodd y PSTC Simmons pa brofion gwahanol sy'n cael eu cynnal a bod yr agwedd ffitrwydd yn rhan bwysig o'r broses ddethol, ac mae gofyn i staff gymryd profion dethol ar gyfer diffoddwyr tân. Cafodd yr Aelodau wybod am y datblygiadau mewn safonau ffitrwydd ar lefel genedlaethol a bod Cymru yn unigryw gan fod ganddi un safon ffitrwydd. Mae hyn yn fodd i'r tri GTA yng Nghymru gyflawni'r elfen dyletswydd gofal tuag at staff gweithredol, gan ddarparu ffyrdd o fonitro asesiadau a chefnogi yn ôl angen unigolion yn hytrach na phenderfynu hynny ar sail pa Wasanaeth sy'n eu cyflogi.

10.4 Holodd y Cyng. L W Davies am y gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael, yn enwedig i'r rhai sydd wedi bod mewn digwyddiad anodd. Cadarnhaodd y PSTC Simmons fod gan y Gwasanaeth system ôl-drafod digwyddiadau critigol (*critical incident debrief*) yn ei lle a bod staff yn gallu eu cyfeirio eu hunain am gwnsela drwy iechyd galwedigaethol. Caiff y mater ei drafod hefyd gyda'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiadau recriwtio er mwyn sicrhau eu bod yn deall bod rhai agweddau ar y swydd yn gallu bod yn anodd yn seicolegol yn ogystal ag yn gorfforol.

10.5 Yn ychwanegol at y profion corfforol, nodwyd bod yn rhaid i'r staff gweithredol gael archwiliadau meddygol, ac mae'r rheini'n digwydd yn amlach wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi ymgynghorydd ffitrwydd ac mae ar gael i'r holl staff ond yn bennaf mae'n gweithio gyda diffoddwyr tân gweithredol sydd angen gwella eu ffitrwydd.

10.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r PSTC ACFO am y cyflwyniad, a **PHENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 DIWEDDARIAD AM Y BWRDD CYMUNEDAU DIOGELACH

11.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc ddiweddariad i'r aelodau am waith y Bwrdd Cymunedau Diogelach sydd wedi ei sefydlu. Cytunwyd ar un cynllun trosfwaol ar gyfer y rhanbarth, ac mae'r partneriaethau diogelwch cymunedol yn mynd ati o'u gwirfodd i gysoni eu cynlluniau gyda'r cynllun rhanbarthol. Mae anghenion gwahanol ar wahanol ardaloedd felly ystyrid ei bod yn bwysig i bob partneriaeth fod yn gallu bod yn hyblyg wrth osod eu polisïau eu hunain a chael eu targedau cynllunio eu hunain. Cytunwyd ar bolisi datrys gwrthdaro rhag ofn y bydd unrhyw broblemau.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

12 PROSIECT Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013

12.1 Atgoffwyd yr Aelodau gan y PST eu bod wedi gofyn i'r Cadeirydd a'r PST gysylltu â'r Gweinidog i fynegi pryder am adroddiad y prosiect.

12.2 Fel y cytunwyd yng nghyfarfodydd y tri ATA ym mis Mehefin, roedd Cadeiryddion yr Awdurdodau wedi anfon llythyrau at y Gweinidog yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r adroddiad. Yna, roedd y Gweinidog wedi gwahodd y tri Chadeirydd i gyfarfod â hi ar 17 Gorffennaf 2014. Roedd y Cadeiryddion wedi amlinellu eu pryderon ynglŷn â'r argymhellion a oedd yn adroddiad y prosiect ac wedi cytuno'n unfrydol i beidio â darparu cynrychiolaeth ar fwrdd y rhaglen ond wedi cytuno y gellid cysylltu â'r Prif Swyddogion Tân ynglŷn ag argymhellion yr adroddiad.

12.3 Roedd y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd y tri ATA yn parhau yn endidau ar wahân ond roedd yn bryderus nad oedd y materion cyllido yn dryloyw. Cadarnhaodd y Trysorydd fod y dull cyllido wedi ei sefydlu yn y Gorchymyn Cyfuno, a bod ATAGC yn gweithredu ei faterion cyllido yn unol â'r Gorchymyn hwnnw.

12.4 Rhoddodd y PST ddiweddariad pellach, sef ers y cyfarfod ar 17 Gorffennaf roedd papur gwyn y llywodraeth ar ddiwygio llywodraeth leol wedi ei gyhoeddi. Mae'n cynnwys tri chwestiwn ymgynghori ynghylch yr ATAau, ac maent yn ymddangos yn debyg i argymhellion 10-12 yn adroddiad y prosiect.

12.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

13 RHEOLI PARHAD BUSNES

13.1 Rhoddodd y PST yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau o ran y gweithredu diwydiannol gan Undeb yr FBU ynghylch diwygio pensiynau.

13.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac y bydd yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach.**